# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 03-09)

**Dyddiad: Dydd Iau, 29 Ionawr 2009**
**Amser: 9:00 - 11:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones, (Cadeirydd) Aberconwy
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Andrew RT Davies, Canol De Cymru
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Richard Brunstrom, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru (drwy gyfrwng fideo gynadledda)

Mark Warden, Pennaeth Ymgysylltu â Deiliaid Diddordeb, Cyfarwyddwr Rhaglen Orfodi, yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr VOSA) David Collings, Rheolwr Rhanbarthol Cymru, yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) (drwy gyfrwng fideo gynadledda) Kevin Barry, Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Huw Lewis a Janet Ryder ac yr oedd Nerys Evans yn dirprwyo ar ei rhan hi.

1.3 Gan y byddai newid yn aelodaeth y pwyllgor yn fuan, diolchodd y cadeirydd i Janet Ryder am ei chyfraniad gwerthfawr i waith y pwyllgor.

### 2: Plismona Ffyrdd yng Nghymru - Y Maniffesto, 2009
### Papur: EL(3) 03-09 - Papur 1, Atodiad 1, EL(3) 03-09 - Papur 2, EL(3) 03-09 - Papur 3

#### Fideo Gynadledda: Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

2.1 Croesawodd y pwyllgor Richard Brunstrom, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru drwy gyfrwng fideo gynadledda.

2.2 Bu'r pwyllgor yn holi'r tyst yn fanwl. **Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA)** 2.3 Croesawodd y pwyllgor Mark Warden, Pennaeth Ymgysylltu â Deiliaid Diddordeb, Cyfarwyddwr Rhaglen Orfodi, yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr i'r cyfarfod; a David Collings, Rheolwr Rhanbarthol Cymru, yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr drwy gyfrwng fideo gynadledda. 2.4 Bu'r pwyllgor yn holi'r tyst yn fanwl. **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** 2.5 Croesawodd y pwyllgor Kevin Barry, Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i'r cyfarfod. 2.6 Bu'r pwyllgor yn holi'r tyst yn fanwl. **Camau i'w cymryd** Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu:

Y wybodaeth ddiweddaraf ar hynt y Bartneriaeth Gostwng y Nifer sy'n Cael eu Hanafu a'u Lladd mewn cyfarfod yn ystod tymor yr haf.

Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr i ddarparu:

Data ar yr archwiliadau ar ochr y ffordd a wneir ar gerbydau nwyddau trwm yng Nghymru.

### 3: Adroddiad drafft y pwyllgor ar y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon
### Papur: EL(3) 03-09 - Papur 4, Atodiad 1

3.1 Rhoddodd y pwyllgor ei sylwadau ar ei adroddiad drafft a chytuno ar yr adroddiad ar weithredu'r Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon. Caiff yr adroddiad ei osod yn fuan.

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### Papur: EL(3) 02-09 - Cofnodion

Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Ionawr.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ionawr 2009**